# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell

Dyddiad yr arolygiad: 23/02/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg y Castell yn gymuned gynnes a chroesawgar lle mae lles a chynnydd disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad clir i'r ysgol, gyda phwyslais cryf ar feithrin disgyblion annibynnol a hyderus sy'n ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u hunaniaeth. Cefnogir y pennaeth yn effeithiol gan dîm ymroddedig o staff a llywodraethwyr sy'n cydweithio'n agos er lles a dysgu'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae staff yn gweithredu trefniadau buddiol er mwyn adnabod a chefnogi'r disgyblion yn amserol. Mae cydweithio agos â theuluoedd ac asiantaethau arbenigol yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu dysgu.

Mae'r staff yn creu amgylchedd lle mae parch, caredigrwydd a chydweithio yn nodweddion amlwg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu, yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i gilydd ac yn dyfalbarhau wrth wynebu her. Mae bron bob un yn datblygu medrau llafar cadarn. Maent yn cyfrannu at drafodaethau dosbarth yn bwrpasol ac yn sgwrsio â'u cyfeillion yn naturiol yn ystod cyfnodau llai ffurfiol. Mae disgyblion yn mwynhau darllen, ac mae camau diweddar wedi cryfhau eu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg. Mae medrau ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n gadarn; er hyn, prin yw'r cyfleoedd iddynt ysgrifennu'n estynedig. Mae safonau mathemateg disgyblion yn gryf, ac maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus mewn cyd-destunau dysgu amrywiol. Mae eu medrau digidol yn datblygu'n gyson.

Mae arweinwyr wedi arwain y staff yn fedrus i gynllunio cwricwlwm sydd yn berthnasol ac yn ysgogol i ddisgyblion, gan gynnwys profiadau sy'n cysylltu'r disgyblion â'u hardal leol a'i threftadaeth gyfoethog. Mae dysgu proffesiynol staff yn gryfder amlwg yn yr ysgol, sydd, yn ei dro, yn cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd yr addysgu. Yn yr arferion ble mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn sicrhau cyflymder bwriadus i'r sesiynau a her addas sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae dulliau holi effeithiol yr staff yn ymestyn dealltwriaeth ac annibyniaeth y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynnig adborth amserol a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella eu gwaith. Er hyn, nid yw'r arferion hyn yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn meithrin diwylliant o ymddiriedaeth a chydweithio lle mae staff yn cymryd cyfrifoldeb gweithredol i gryfhau'r ddarpariaeth dros amser.

Mae'r ysgol yn ystyried barn ac awgrymiadau rhieni yn ofalus ac yn rhannu gwybodaeth eglur am gynnydd eu plant trwy gyfathrebu rheolaidd. Mae hyn yn helpu rhieni i ddeall cryfderau eu plentyn a'r camau nesaf yn eu dysgu, ac yn cryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cysoni'r arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol

A2 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2026